# Sut cafodd y Pecyn Cymorth ei ddatblygu?

Cynhaliwyd adolygiad cyflym o'r offerynnau cyfredol ar gyfer Asesu Tegwch a Chydraddoldeb Iechyd1-8.. Crëwyd y pecyn cymorth hwn i gynorthwyo'r sawl sy'n gweithio yn y system gofal sylfaenol neu'n gysylltiedig â gofal sylfaenol, i ystyried anghydraddoldebau iechyd a chymryd camau i leihau hynny drwy gynllunio gwasanaethau.

Mae'r pecyn cymorth yn debyg i offerynnau eraill ar gyfer asesu tegwch, ond mae wedi'i ddatblygu i gefnogi gofal sylfaenol yn benodol. Mae'r pecyn cymorth tegwch hwn yn cynnig opsiynau ar gyfer y tymor byr a'r hirdymor, a'i nod yw cefnogi'r gwahanol gamau sydd ynghlwm wrth ddatblygu, adolygu a chomisiynu gwasanaethau, yn ogystal â bod yn offeryn penodol i gefnogi datblygiad gwasanaethau iechyd cynhwysiant.

# Offeryn1 : Rhestr Wirio Tegwch Iechyd

Ar gyfer arweinwyr gwasanaeth, arweinwyr clystyrau, a chydlynwyr, dyma ambell nodyn atgoffa cyfeillgar ichi gadw tegwch iechyd ar flaen eich meddwl wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

## Target Audience -

### Understand your population & address their needs

| | |
|---|---|
| **Pwy?**<br>boblogaeth ydych chi'n ei gwasanaethu? | Ydych chi wedi ystyried y categorïau hyn?<br>☐Pobl sy'n byw yn yr 20% o godau post mwyaf difreintiedig yn eich ardal?<br>☐ Pobl sydd â nodweddion gwarchodedig?<br>☐ Eich grwpiau iechyd cynhwysiant?<br>☐ Eich poblogaeth wledig<br>☐ Pwy sy'n methu apwyntiadau'n rheolaidd?<br>☐ Pwy sydd ar goll yn eich data? |
| **Beth?**<br>yw eu hanghenion? | Meddyliwch am y categorïau hyn:<br>☐ Cyflyrau iechyd<br>☐ Ffordd o fyw ac ymddygiad iach<br>☐ Atal |

| | |
|---|---|
| | ☐ Unrhyw anghenion eraill yn seiliedig ar eu hamgylchiadau cymdeithasol?<br>☐ A oes gwahaniaethau mewn canlyniadau iechyd?<br>☐ Beth yw'r anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu yn eich poblogaeth?<br>☐ Ydych chi wedi siarad â phobl a sefydliadau yn eich ardal a allai fod â gwybodaeth leol? |

## ☐ Pwynt gwirio

Gan gyfuno'r ddwy restr wirio uchod, a ydych chi wedi adnabod pwy yw'r boblogaeth sy'n flaenoriaeth ichi a beth yw eu hanghenion?

| | |
|---|---|
| **Beth?**<br>ellid ei wella ar gyfer eich poblogaeth? E.e. gwasanaeth penodol, prosiect penodol, neu lwybr neu brofiad penodol | ☐ A ydych chi wedi edrych ar y dystiolaeth o ba ymyriadau sy'n gweithio?<br>☐ Ydych chi'n gwybod pa wasanaethau a llwybrau sydd eisoes yn bodoli yn eich ardal?<br>☐ A yw llwybrau gwasanaeth yn hygyrch?<br>☐ Pa rwystrau ydych chi wedi eu hystyried?<br>☐ Ydy gwasanaethau yn y lle iawn? Amser iawn?<br>☐ A yw eich llwybrau'n deg?<br>☐ Beth mae profiad cleifion yn ei ddweud wrthych chi? |
| **Sut?**<br>ydych chi'n mynd i fynd i'r afael â hyn? | ☐ A yw'r holl weithwyr proffesiynol perthnasol wedi'u cynnwys yn y gwaith cynllunio?<br>☐ Ydych chi'n casglu'r data angenrheidiol? (pa grŵp neu unigolion sy'n profi'r annhegwch iechyd mwyaf?)<br>○ Ydych chi wedi edrych ar y ddemograffeg (oedran, rhywedd, ethnigrwydd, cod post)<br>○ canlyniadau iechyd?<br>○ penderfynyddion cymdeithasol?<br>☐ Oes gennych chi ddigon o adnoddau?<br>○ gweithlu – a oes niferoedd digonol, hyfforddiant perthnasol (hyder a gallu eich staff ) / adnabod hyrwyddwyr neu arweinwyr o ran anghydraddoldeb<br>○ cyllid (math o gyllid ac am ba mor hir? / meddyliwch am hirhoedledd, yn aml nid yw cyllid tymor byr yn helpu<br>☐ A allai eich ymyriad gynyddu anghydraddoldebau iechyd? |

## ☐ Pwynt gwirio:

Darllenwch y cerdyn rhybudd ar y dudalen nesaf i weld sut y gallai eich cynllun waethygu anghydraddoldebau iechyd.

| | |
|---|---|
| **Pwy arall all eich helpu chi?** | Meddyliwch am:<br>☐(eich asedau cymunedol, partneriaethau lleol, sefydliadau trydydd sector, awdurdodau lleol, gofal cymdeithasol, eich cleifion, eich cydweithwyr ac ati)<br>☐ Allwch chi gyd-ddylunio eich ymyriad neu wasanaeth? |
| **A ydych chi wedi gwneud gwahaniaeth?** | ☐ Sut fyddwch chi'n gwybod a ydych chi wedi gwneud y newid roeddech chi ei eisiau?<br>☐ Beth mae'r data y gwnaethoch eu casglu yn ei ddweud wrthych?<br>☐ Ydy profiad eich claf wedi newid?<br>☐ A yw eich ymyriad wedi lleihau neu gynyddu anghydraddoldebau iechyd?<br>☐ Beth fyddwch chi'n ei wneud yn wahanol i ysgogi gwelliannau?<br>☐ A ydych chi wedi gallu gwneud y mwyaf o'r canlyniadau sydd o bwys i bobl am y gost isaf bosibl?<br>☐ Pwy all eich helpu i werthuso? (prifysgolion, timau iechyd cyhoeddus lleol ac ati) |

# Cerdyn Rhybudd Tegwch Iechyd

**Gofal: gallai eich cynllun / ymyriad waethygu anghydraddoldebau drwy:**

- Canolbwyntio ar **gamau gweithredu ar lefel unigolion** yn unig, sy'n debygol o fod yn gamau a gymerir gan grwpiau cefnog.
- Peidio â mynd i'r afael â'r **sbectrwm ehangach, llawn o ran gwraidd problemau** – ni allwch wneud hyn ar eich pen eich hun, ond gall eich partneriaid ehangach mewn awdurdodau lleol, y trydydd sector, gwasanaethau cymdeithasol a phobl eraill helpu â hyn. Ceisiwch adnabod pwy yw eich rhanddeiliaid allweddol sydd â buddiannau ac amcanion cyffredin, a gofynnwch am eu cefnogaeth. Cynlluniwch eich prosiect / gwasanaeth ar y cyd (dewch o hyd i'ch criw dethol, a rhoddwch eich ymddiriedaeth ynddynt).
- Dibynnu gormod ar **ymyriadau dan arweiniad proffesiynol yn unig.**
- Mae peidio â mynd i'r afael â **gwreiddiau sylfaenol** anghydraddoldebau iechyd – yr un peth â'r ail bwynt bwled, yn swnio'n rhywbeth mawr ac ni allwch ei wneud ar eich pen eich hun, ond gall gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill sydd eisoes yn gweithio yn y maes eich cefnogi. Maen nhw yno ar lawr gwlad yn gweithio ar hyn, does ond angen i chi ddod o hyd iddyn nhw a siarad â nhw.
- Peidio ag ystyried **cost yr ymyriad**: Gallai rhai ymyriadau iechyd, hyd yn oed pan maent yn cael cymhorthdal, esgor ar gostau y mae'n rhaid i unigolion dalu amdanynt (e.e. cludiant, amser i ffwrdd o'r gwaith) na all unigolion tlotach eu fforddio.
- Peidio ag ystyried **costau cyfle**: Gall unigolion ag incwm is flaenoriaethu anghenion ariannol uniongyrchol dros ymyriadau iechyd nad ydynt yn arwain at fuddion uniongyrchol.
- Peidio ag ystyried:
  - **credoau ac agweddau diwylliannol**: Gall agweddau diwylliannol amrywiol tuag at ofal iechyd ddylanwadu ar ganfyddiad o ymyriadau gan grwpiau gwahanol o bobl, a'r graddau y maent yn derbyn yr ymyriadau hynny. Gallai grwpiau lleiafrifol neu grwpiau difreintiedig fod â llai o ymddiriedaeth yn y system gofal iechyd neu wynebu rhwystrau diwylliannol o ran derbyn ymyriadau.
  - **Cymorth Cymdeithasol:** Yn aml mae gan grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch systemau cymorth cymdeithasol gwell sy'n hwyluso'r unigolion i dderbyn ymyriadau iechyd. Dylid ystyried sut y gallech hyrwyddo hynny yn eich ardaloedd o amddifadedd ac ymhlith grwpiau sydd ag anghenion niferus a chymhleth.